



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Chwefror 27 2018 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
*Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday February 27 2018 at 7pm.***

Presennol/Present: Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd/Chair), Meg Roberts, Myrddin Owens, John Byast, Liz Wood, Julie Hughes, Gerry Belanger, Mike Roberts, Gordon Warren.

Yn bresennol/In attendance: Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk)

Ymddiheuriadau/Apologies: Gina Jones, Cyng/Cllr Richard Griffiths, Cyng/Cllr Richard Jones, Cyng/Cllr Aled Jones.

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts OBE ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Nodwyd bod llythyrau wedi eu derbyn gan Dafydd Roberts a Helen Hughes yn ymddiswyddo fel aelodau o'r Cyngor. Cytuno anfon atynt yn diolch am eu cyfraniad gwerthfawr i'r Cyngor tra yn aelodau. Nodwyd felly bod tri sedd gwag ar y Cyngor erbyn hyn (gan gynnwys sedd Daniel ap Eifion Jones). Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a'r Cyngor Sir i ddechrau'r broses penodi aelodau newydd.

Nododd Myrddin Owens bod seddi gwag yn creu problemau gyda pwyllgorau. Cytuno yn unfrydol byddai Gareth W Roberts ar y pwyllgor cyllid a phwyllgor y fynwent fel aelod o'r Cyngor yn hytrach nac yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Cyngor Llawn. Penodwyd John Byast i gynrychioli'r Cyngor ar bwylgor Gwyl Goleuadau Nadolig y dref.

The meeting was chaired by Gareth W Roberts OBE and all present were welcomed. It was noted that letters had been received from Dafydd Roberts and Helen Hughes resigning as members of the Council. Agreed to write to them to thank them for their valued contribution to the Council during their time as members. It was noted therefore that there are now three vacant seats on the Council (to include Daniel ap Eifion Jones). The clerk was asked to contact the County Council to start the process of appointing new members.

Myrddin Owens noted that vacant seats cause problems with committees. Unanimously agreed that Gareth W Roberts be a member of the finance and cemetery committee as a member of the Council rather than in his capacity as Chair of the Council. John Byast was appointed to represent the Town Council on the town's Christmas Lights Festival committee.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Gareth W Roberts – Parcio Stryd Mona / Mona Street Parking

3 Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd / Police and Crime Commissioner

Gyda eira a rhew, nid oedd y comisiynydd yn gallu mynychu'r cyfarfod. Mae wedi cytuno mynychu cyfarfod arall yn y dyfodol agos.

With snow and ice, the commissioner was unable to attend the meeting. He has agreed to attend another meeting in the near future.

4 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir wedi'r tri gwelliant isod –

- Baw Cwn, nodwyd bod y penderfyniad o wahodd y Cyngor Sir a swyddogion Kingdom i'r dref wedi bod yn benderfyniad unfrydol a gefnogwyd gan yr holl aelodau oedd yn bresennol.
- Canolfan Hamdden – Pan ofynnwyd pam fod rheolau'r ysgol wedi newid i alluogi i'r neuaddau gael eu defnyddio gan y cyhoedd, nodwyd bod Richard Jones wedi cadarnhau fod hyn er budd ac i gefnogi'r gymuned.
- Medalau Mynydd Parys – nododd Mike Roberts nad oedd prosiect wedi ei bennu ar gyfer cyfraniad o £2,000 gan y Cyngor yn y cyfarfod diwethaf er bod aelodau eraill yn datgan mai tuag at medalau copr oedd yr arian. Cafwyd wybod gan Myrddin Owens bod y pwyllgor cyllid wedi trafod y cais ac wedi cytuno clustnodi arian tuag at brosiect i ddathu 250 mlynedd ar Fynydd Parys.

The minutes were confirmed a correct noting the three amendments below –

- *Dog fouling, it was noted that the decision to invite the County Council and Kingdom officials to the town had been unanimous decision supported by all members present.*
- *Leisure Centre – when asked why the school had changed their rules to allow the gymnasiums to be used by the public, it was noted that Richard Jones had confirmed that this was for the benefit of the community.*
- *Parys Mountain Medals – Mike Roberts noted that no project had been agreed for the £2,000 contribution from the Council at the last meeting although other members stated that the funding was specifically towards copper medals. Myrddin Owens noted that the finance committee had discussed the application and had agreed to earmark money towards a project to celebrate 250 years on Parys Mountain.*

5 Materion yn codi/Matters arising

5.1 Cae Chwarae Maes Llwyn Play Area

Dim ymateb gan Richard Jones hyd yma. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu yn uniongyrchol os nad oes diweddariad ymhen wythnos. Mae'r offer chwarae wedi eu prynnu ers bron i flwyddyn a heb eu gosod.

There is no response from Richard Jones as yet. The clerk was asked to make direct contact if there was no response within a week. The play equipment has been purchased nearly 12 months and yet to be installed.

5.2 Cloc y Dref / Town Clock

Mae Liz Wood a Gordon Warren yn parhau i gydweithio a gobeithir gallu adrodd yn ol gyda chostau a syniadau yn y cyfarfod nesaf.

Liz Wood and Gordon Warren continue to work together and it is hoped to report back with ideas and costs at the next meeting.

5.3 Coeden Porth Amlwch Port Tree

Mae'r goeden wedi ei ddiogelu yn dilyn adroddiad arbennigwyr CSYM.
The tree has been saved following a visit from IACC's tree specialists.

5.4 Materion Priffyrdd / Highway Matters

Roedd yr aelodau yn synnu nad oedd y Cyngor Sir wedi gwneud unrhywbeth ynglyn a'r lon ger y deintydd er bod y Cyngorwyr Sir wedi codi ymwybyddiaeth o bryderon y Cyngor Tref eto ac wedi cwrrd a swyddogion ar y safle rhai misoedd yn ol. Teimlai'r aelodau bod y lon yn ddamwain ar fin digwydd ac yn rhoi bywydau mewn peryg.

Mae pryderon hefyd am barcio ger yr ysgol gynradd, ac fe nodwyd bod llinellau melyn ar y lon am resymau diogelwch. Roedd yr aelodau am ysgrifennu at Dr Gwynne Jones, prif weithredwr CSYM i nodi eu pryderon am ddiogelwch ffordd a'u siom nad oes unrhyw gamau wedi eu cymryd i wella'r sefyllfa hyd yma.

Members were surprised that the County Council had not yet done anything about the road by the dentist, even though the county councillors had raised awareness of the Town Councils' concerns

again and had met with Council officers on site a few months ago. Members felt that the road was an accident waiting to happen and that lives were being put in danger.

There are also concerns regarding parking by the primary school, it was noted that yellow lines were on the road for safety reasons. Members wished to write to Dr Gwynne Jones, CEO IACC to note their concerns regarding road safety and their disappointment that no action has been taken to date to improve the situation.

6 Pwyllgorau a Chyrff Allanol/External Meetings and Organisations

Diolchwyd i Gordon Warren am fynychu gwahanol gyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd ei fod yn bwysig bod aelodau yn mynychu a chynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd allanol er mwyn gallu adrodd yn ol i'r Cyngor Llawn.

Gordon Warren was thanked for attending different meetings on behalf of the Council. It was noted that it was important for members to attend and represent the Council at external meetings to be able to report back to the Full Council.

6.1 Siapio Cymunedau / Place Shaping

Diolchwyd i Gordon Warren am ei adroddiad ac fe ddosbarwyd gopiau ohono i bawb oedd yn bresennol. Nodwyd bod y Cyngor Tref yn aelod o ddau bartneriaeth sy'n cydweithio'n dda – Trefi Mon a Phartneriaeth Cynghorau Gogledd Mon. Mae'r ddau bartneriaeth yn ymwneud ag ardaloedd a phryderon penodol. Teimlai'r aelodau byddai ehangu'r ardaloedd yma yn ehangu'r problemau i'w ystyried ac felly na fyddai'r gwaith mor effeithiol. Nodwyd pryderon am gymryd gormod o gyfrifoldebau yn lleol a'r anhegwch ar drethdalwyr ardaloedd sydd yn gwynebu codi eu trethi i dalu am y gwasnaethau hynnu. Nododd y Cadeirydd ei fod wedi bod mewn cysylltiad ag Un Llais Cymru yn ddiweddar a bod y ddau bartneriaeth yma yn arwain y ffordd yng Nghymru.

Gordon Warren was thanked for his report and copies were distributed to those present. It was noted that the Town Council was a member of two partnerships that are working well – Trefi Mon and the North Anglesey Councils' Partnership. The two partnerships are concerned with specific areas and issues. Members felt that extending the catchment areas would also extend the issues to be addressed and thus the work would not be as effective. Concerns were noted about taking on too many local responsibilities and the unfairness for local ratepayers who would face an increase in taxes to pay for those services. The Chair noted that he had been in contact with One Voice Wales recently and that the two partnerships were leading the way in Wales.

6.2 Fforwm Pobl Hyn Mon / Anglesey Older People Forum

Cafwyd grynodedb gan Gordon Warren o'r hyn drafodwyd yn y cyfarfod, Cafwyd wybod bod Car-link Mon angen gyrrwyr gwirfoddol yn ardal Amlwch. Nododd bod cyflwyniad ar bwysicwydd diffibriwleiddwyr cymunedol a sut i'w defnyddio wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Roedd am bwysleisio nad oedd angen i unrhyw un fod ofn defnyddio'r peiriant.

Gordon Warren gave a summary of what was discussed at the meeting. He noted that Car-link Mon needed volunteer drivers in the Amlwch area. He noted that a useful presentation was given on the importance of community defibrillators and how to use them. He emphasised that there was no need for anyone to be afraid of using the machine.

6.3 CAB a Banciau Bwyd Mon / Anglesey CAB and Foodbanks

Cafwyd adroddiad gan Gordon Warren yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd bod banciau bwyd ledled Mon yn cydweithio erbyn hyn gyda pobl yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth yn bennaf drwy CAB.

Gordon Warren gave a summary following the meeting. It was noted that all food banks island wide are working together now, with people being referred to the service mainly through CAB.

6.4 Mynydd Parys / Parys Mountain

Cafwyd adroddiad gan Mike Roberts o'r hyn sydd wedi ei drefnu ar gyfer y penwythnos i ddathlu 250 mlynedd ers canfod copr ar y mynydd. Gobeithir bydd llawer iawn mwy o weithgareddau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn. Diolchodd Meg Roberts i'w pwyllgor am eu gwaith hyd yma.

Mike Roberts reported on what had been arranged for the weekend to celebrate 250th anniversary

of finding copper on the mountain. It was hoped that many more activities be held throughout the year. Meg Roberts thanked the committee for their work to date.

6.5 Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon / North Anglesey Councils Partnership

Nodwyd bod y Bartneriaeth wedi ei sefydlu rhai blynyddoedd yn ol erbyn hyn. Ar hyn o bryd, mae pwyslais ar faterion Wylfa Newydd ac effaith y datblygiad ar yr ardal leol. Dalgylch y bartneriaeth yw'r ardal fydd yn cael ei effeithio fwyaf gan y datblygiad. Cafwyd amlinelliad gan Gareth Roberts o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd gan y Bartneriaeth. Mae angen ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol – Wylfa Newydd, dogfen gynllunio'r Cyngor Sir, erbyn diwedd yr wythnos. Nodwyd bod y cynghorau yn gefnogol i Wylfa Newydd ond ddim ar unrhyw gost; mae'n rhaid i'r ardal elwa hefyd. Mae teimlad o rwystredigaeth nad oes gwybodaeth yn cael ei rannu gan Horizon gyda'r cynghorau; mae prif swyddogion CSYM yn rhannu'r teimlad ac nid ydynt wythau yn cael atebion ychwaith. Nodwyd bod y bartneriaeth yn cydweithio erbyn hyn gyda arbennigwyr fydd ar gael i gefnogi'r cynghorau.

It was noted that the Partnership had been established for some years now. At present, emphasis is on matters relating to Wylfa Newydd and the effect of the development on the local area. It is the partnership's catchment area that will be most affected by the development. Gareth Roberts gave an outline of the Partnership's last meeting. A formal response is required for the Supplementary Planning Guidance – Wylfa Newydd, a County Council planning document, by the end of the week. It was noted that the councils are supportive of Wylfa Newydd but not at any cost, the area must also benefit. There is a feeling of frustration that information is not forthcoming from Horizon to the councils; senior IACC officers share the frustration that they are also waiting on information and not getting answers either. It was noted that the partnership is by now working with consultants who will be available to support the councils.

6.6 Trefi Mon

Cafwyd grynodedb gan Gareth Roberts o'r hyn drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Mae'r cais am gamerau ychwanegol wedi ei gyflwyno erbyn hyn. Cytuno'n unfrydol dylai'r Cyngor gysylltu a'r tri cynghorwr sirol i ofyn am eu cefnogaeth.

Gareth Roberts gave a summary of the last meeting. The application for additional cameras has by now been submitted. Unanimously agreed that to contact the three county councillors to ask for their support.

7 Adroddiad Pwyllgor Cyllid/Finance Committee Report

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Nodwyd bod rhestr o daliadau ac adroddiad chwarterol o incwm a gwariant ar gael gan y cler. Rhoddwyd yr hawl i'r cler drefnu manion gwaith yn swyddfeydd y Cyngor yn dilyn asesiad risg blynyddol. Trafodwyd cyfraniad tuag at weithgareddau i ddathlu 250 mlynedd ar y mynydd (gweler 4 uchod). Daw Cynllun Iaith y Cyngor yn ol gan y comisiynydd wedi ei gymeradwyo. Cynnigwyd bod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r ddogfen. Pawb yn fodlon ac yn derbyn y cynnig.

Myrddin Owens gave a summary of the meeting. it was noted that a list of payments and the quarterly report of the Council's income and expenditure was available with the clerk. The clerk was given approval to arrange some small works in the Council Office following the annual risk assessment. A contribution towards activities to celebrate 250 years on Parys Mountain was discussed (see 4 above). The Welsh Language Scheme has been approved by the commissioner. Proposed that the full Council adopt the documents. All happy and agreed to accept the proposal.

8 Materion Priffyrdd / Highway Matters

Dim byd yn ychwanegol i bwynt 5.4 uchod.
Nothing not already discussed in point 5.4 above.

9 Canolfan Hamdden Amlwch Leisure Centre

Cafwyd ebost gan Gerallt Roberts, rheolwr y ganolfan yn cadarnhau argaeledd y Neuadd Chwaraeon. Nododd Julie Hughes bod grwpiau yn gwneud defnydd o gyfleusterau'r ysgol gan eu bod yn rhatach na'r ganolfan. Nodwyd hefyd nad oedd y caffi yn y ganolfan ar agor mwyach. Cytuno byddai gwell lleihau'r ffioedd a chael y ganolfan yn llawn. Cytuno bod angen i'r cynghorwyr sirol fod yn atebol i'r penderfyniadau a wnaed a sut maent yn effeithio'r gymuned. Beth fydd yr

effaith o ddefnyddio neuaddau'r ysgol ar y ganolfan hamdden dros gyfnod o pum mlynedd? Mae posib bydd y gymuned yn colli'r cyfleusterau'n gyfan gwbl. Cytuno yn unfrydol cynnwys yr eitem eto ar agenda'r cyfarfod nesaf er mwyn trafod ymhellach gyda'r cynghorwyr sirol.

An email from Gerallt Roberts, centre manager confirms the availability of the Sports Hall. Julie Hughes noted that groups make use of the facilities at the school as they are cheaper than the leisure centre. It was noted also that the café in the centre was no longer open. Agreed that it would be better to reduce the fees and have the leisure centre full. Agreed that the county councillors need to be answerable to the decisions made and how they affect the community. What will the impact of using the school halls have on the leisure centre over a five year period? There is a possibility that the community will lose the facility altogether. Unanimously agreed to include the item on the agenda again in order to discuss further with the county councillors.

10 Wylfa Newydd

Gweler 6.5 uchod. Cytuno bod y Cyngor yn parhau i gefnogi datblygu safle Rhosgoch a datblygu 200 o gyfleon swyddi lleol, a hynnu ynghyd a gwelliannau i'r lon.

See 6.5 above. Agreed that the Council continue to support the development of Rhosgoch Site and the development of 200 local job opportunities, alongside road improvements.

11 Gohebiaeth/Correspondence

11.1 Cau Lon/Road Closure

Nodwyd bydd y lon o'r gylchfan hyd Machine Street yn cau tra bod gwaith trin pibellau dwr. *Noted that the road from the roundabout up to Machine St will be closed to upgrade water pipes*

11.2 Cynllun Llesiant Gwynedd & Mon Wellbeing Plan

Mae ymgynghoriad ar hyn o bryd. Cytuno anfon y ddolen i'r aelodau drwy ebost. *Currently in consultation. Agreed to send the link to members via email.*

11.3 Maes Parcio /Car Park

Cafwyd wybod gan CSYM nad oedd y cynllun am faes parcio i 50 o gerbydau ger y parc busnes yn llwyddianus. Roedd yr aelodau yn siomedig nad oedd cefnogaeth. Byddai'r cynllun wedi bod o fudd i'r ganolfan hamdden, yn gyfleuster parcio a rhannu posib i weithwyr Wylfa Newydd, ac felly yn reswm pellach i wella'r lon tuag at Amlwch.

IACC have confirmed that the proposal for a car park for 50 vehicles by the business park was unsuccessful. Members were disappointed that there was no support. The scheme would have benefitted the leisure centre, be a possible park and share facility for Wylfa Newydd, and as such a further reason for road improvements.

11.4 Ffioedd Claddu Plant/Child Burial Fees

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru a Chynghorau Tref a Cymuned wedi cytuno dileu ffioedd claddu i blant, ond bod modd hawilio'r ffioedd hynnu yn ol gan y Llywodraeth ar hyn o bryd..

Welsh Government and Town and Community Councils have agreed to abolish burial fees for children, but it is still possible to claim those fees back from the government at present.

12 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

12.1 Tywydd Gwael – Ysgolion / Bad Weather - Schools

Teimlai Myrddin Owens ei fod yn gywilyddus bod ysgolion Amlwch wedi cau oherwydd yr eira er bod y dref a'r lonydd yn glir. Hoffai'r aelodau wybod faint o athrawon ac aelodau staff yr ysgol sydd yn byw y tu allan i'r dalgylch ac felly wedi methu a chyrraedd eu gwaith yn ystod y tywydd garw. Faint o aelodau staff fyddai wedi medru dod i'r gwaith, ac yn barod i weithio? Roedd yr aelodau yn bryderus bod nifer o bobl wedi methu a gweithio gan eu bod wedi gorfod gwarchod eu plant ar fyr rybydd, a bod hyn yn creu pryder i'r bobl hynnu sydd ond yn cael tal am yr oriau a weithwyd ac nid cyflog sefydlog. Roedd y teuluoedd yma felly ar gollod oherwydd nad oedd yr ysgol ar agor.

Myrddin Owens felt that it was shameful that Amlwch schools were closed due to snow even though the town and the roads were clear. Members wished to know how many teachers and school staff members lived outside the area and therefore had not been able to get to work during the cold

weather. How many members of staff had been able to get to work and were ready to work? Members were concerned that a number of people had not been able to work as they'd had to care for their children at short notice, and that this was of concern to those people who are only paid for the hours worked and not on a regular salary. These families were therefore at a loss because the school was not open.

12.2 Bro Trehinion

Cafwyd wybod bod unigolyn yn creu trafferthion yn y stad. Nid yw'r unigolyn yma i fod yn byw yno ac mae ganddo dy ei hun mewn pentref arall. Cytuno cysylltu a'r adran dai i wneud ymholiadau.

An individual is causing concern on the estate. This individual does not live there and has his own house in another village. Agreed to contact the housing department to make enquiries.

12.3 Biniau Stryd Mona Street Bins

Nododd Gerry Bellanger bod biniau yn creu trafferth i gerddwyr ar y palmant ar hyd Stryd Mona. Mae'n debyg bod y biniau yma drwy'r wythnos ac nid dim ond pan fyddent yno i'w gwagio. Cytuno byddai yn cysylltu a'r cynghorwyr sirol i godi ymwybyddiaeth.

Gerry Bellanger noted that bins are causing difficulties for walkers on the pavement along Mona Street. It appears the bins are there all week, and not only on bin collection day. Agreed that he would contact the county councillors to raise awareness.

12.4 CCTV – Ysgol Syr Thomas Jones

Fe ofynnodd Julie Hughes a fyddai posib cefnogi cais yr ysgol i drwsio'r system CCTV tu fewn i'r adeilad. Cytuno mai mater statudol i'r Cyngor Sir oedd diogelwch disgyblion ag aelodau staff.

Julie Hughes asked whether it would be possible to support the school's application to fix the current CCTV system within the building. Agreed that it was a statutory matter for the County Council to ensure the safety of the staff and pupils.

12.5 Swyddfa Dacsi a Pheiriant Arian / Taxi Office and Cash Machine

Roedd Gareth Roberts yn datgan diddordeb ac fe adewodd yr ystafell. Nododd Mike Roberts bod problemau parcio o bosib ger y swyddfa dacsi newydd ar Stryd Mona. Cytuno mai mater i swyddogion parcio CSYM fyddai monitro a gorfodaeth parcio.

Gareth Roberts declared an interest and left the room. Mike Roberts noted that there were potential parking problems by the new taxi office on Mona Street. Agreed that it was a matter for the IACC parking officers to monitor and enforce parking.

13 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Fawrth Mawrth 27 2018 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday March 27 2018 at 7pm in the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.00 / *The meeting closed at 20.00.*

Arwyddwyd / Signed:

Gareth Winston Roberts OBE (Cadeirydd / Chair)